CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
12 Ebrill 2017 AM 7.00 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, K Humphreys, G Parry, I Rowlands, Cyng D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R G Parry, N Highley, C Ll Thomas, E Huws, N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng D Rees mater 4.4
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 8 Mawrth 2017, Cyng G Parry yn cynnig a Cyng I Rowlands yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr** - Mae Cadw wedi cynnig grant o £3,986. Bydd y Clerc yn derbyn y grant ac yn trefnu i'r contractwr dechrau'r gwaith.
4.2	**Maes chwarae** - Yn anffodus, nid oedd y Clerc wedi derbyn prisiau cyn dyddiad cau y grant. Bydd yn edrych i wneud ceisiadau eraill. Hefyd, nid yw glaswellt y maes chwarae wedi cael ei dorri. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r contractwr a bydd yn gofyn iddo anfon e-bost bob tro y mae wedi torri'r gwair.
4.3	**Lon Salem** Yn dilyn cyfarfod ar y safle 10.02.17 gyda'r Cyngor Sir (Alun Roberts, Cyng I Roberts a Cyng C Ll Thomas yn mynychu) bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am diweddariad.
4.4	**Cynefin (Lon Salem)** Mae'r mater yn nwylo'r cyfreithwyr. Bydd y Clerc yn atgoffa Cynefin oherwydd bod plant yn gorfod cerdded ar y lon ar eu ffordd i'r Ysgol. Cytunwyd i wneud cwyn swyddogol oherwydd bod trigolion lleol yn rhoi pwysau ar y Cyngor oherwydd iechyd a diogelwch. Hefyd, cytunwyd i cynnig gwahoddiad i uwch swyddog i mynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned i drafod y mater ymhellach.
4.5	**Lon y Fynwent** - Mae'r Clerc yn disgwyl pris gan R G Hire a bydd yn trefnu cael pris arall
4.6	**Plaque (carreg yr Eisteddfod)** - Dywedodd y Clerc bod y cwmni yn gweithio ar y plaque
4.7	**Yr Heddlu (presenoldeb y PCSO)** - mae'r Clerc wedi cynnig gwahoddiad i'r PCSO i cyfarfodydd y Cyngor ond heb cael ymateb. Bydd yn awr yn cysylltu a'r sergeant
4.8	**Capel Salem.** Mae'r Clerc wedi cysylltu a'r perchennog ond heb cael ymateb. Cytunwyd i gynnig un wythnos arall am ymateb cyn cysylltu a HSC
	Llofnod…….Cadeirydd 10.05.17

5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Cynigodd y Cadeirydd diolchiadau i'r Clerc a'r aelodau am cyd weithio drost y blwyddyn diwethaf. Cytunwyd i ofyn i Mrs Dee Walker twtio y willow tunnel yn y maes chwarae a cynigodd Cyng G Parry cael pris am bark i rhoi ar y llawr
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Pwyllgor Safonnau
6.1	Nodyn Briffio - bydd y Clerc yn ebostio y gwybodaeth i'r aelodau
6.2	Caniatad Arbennig - bydd y Clerc yn ebostio y gwybodaeth i'r aelodau
	Pennaeth Adnoddau
6.3	Grantiau i Fudiadau Gwirfoddol 2017/2018 - bydd y Clerc yn paratoi cais am grant (ffensio y maes chwarae)
	Pennaeth Dysgu
6.4	Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 - gwybodaeth yn unig
	Priffyrdd
6.5	Arbrawf Gorfodaeth (gwybodaeth yn unig) Bydd y Cyngor yn cyflogi cwmni i roi dirwy cosb sefydlog pan fod pobl yn gollwng sbwriel neu'n methu â chlirio baw cwn.
6.6	Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - gwybodaeth yn unig
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	HSBC - Llythyr yn dweud bydd cangen Caergybi yn cau 23.06.17 (Er bod y cyfrif yn cangen Caergybi, mae'r Clerc yn defnyddio cangen Llangefni)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Penodi archwilwr mewnol. Cytunwyd i penodi Mr J D Roberts.
9	**MATERION ARIANNOL**
9.1	Watkin Jones - Mae'r Clerc wedi derbyn siec gan Watkin Jones £520 - grant ar gyfer fainc a bydd yn trefnu cael prisiau.
9.2	Cytunwyd i dalu: J D Roberts archwiliwr mewnol £69.00 ar gyfer y flwyddyn 2015/16
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.1	Dwr Cymru
	Llofnod…….Cadeirydd 10.05.17